YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 43. RHIF 1 MEHEFIN 2021 50c

# Cyfraniad Huw Edwards (gweler y Golygyddol)



*Y ddau ffrind yn trafod o ddifrif*



*Dr. Huw Edwards a'i huodledd yn Woolton*



*Ben Hughes, Ysgrifennydd gweithgar Yr Angor*

*Lluniau: Ray Farley*

**YN Y RHIFYN HWN -**
Teyrnged i'r Tywysog Philip a William Glyn Thomas.
Newyddion Bethania, Bethel a Seion.
Ddoe a Heddiw yn Ardal Manceinion.
Teulu Richards o Benllwyn

**Golygyddol**

# *Teyrnged i'r Tywysog Philip (1921-2021) – gan D. Ben Rees*

Ni chafodd y Tywysog Philip, yn hanes *Yr Angor,* ysgrif amdano er ei fod ef o bawb yn haeddu hynny, am iddo addasu ei hun i sefyllfa anodd ar aml i gyfnod ei fywyd. Cafodd blentyndod anoddach na'r rhelyw ohonom, ansicr o'i rieni a'i deulu, yn cael ei 'daflu o don i don nes ofni bron cael byw'.

Gadawodd wlad Groeg mewn bocs sebon ac yntau ond yn ddeunaw mis oed. Gadawodd ei rieni ei gilydd, am fod ei dad yn dyheu am fywyd esmwyth a'i fam yn dyheu am fywyd lle ceid ysbrydolrwydd Eglwys Uniongred y Dwyrain yn amlygu ei hun. Derbyniodd addysg mewn nifer o wledydd, yn Ffrainc, yn yr Almaen, Lloegr a'r Alban o dan un o'i arwyr Kurt Hahn. Ymunodd â'r Llynges a dod yn ddinesydd Prydeinig yn 1939, yr adeg yr oedd ef wedi ymserchu ym merch y Brenin. Dyma stori garu a barhaodd am bron i bedwar ugain mlynedd. Cafodd yrfa nodedig yn y Llynges, yn ddewr a chraff, a chafodd ei anrhydeddu am ei allu a'i ddewrder. Rhoddodd y Brenin, nad oedd yn hanner y dyn i'r darpar fab yng nghyfraith, ganiatâd i'r ddau briodi a dyna'r dewis gorau a wnaeth Elizabeth yr Ail. Dyna oedd ei angen ar Frenhines Elizabeth y Cyntaf ond ni chafodd gydymaith, sef consort.



Cyn y briodas awgrymodd gohebydd brenhinol y *Times*, Dermot Morrah y dylid ei alw yn Duc Caeredin, a dyna a ddigwyddodd. Ni anghofiwyd y Cymry a dyna pam y'i gelwid yn Iarll Meirionnydd, ac i blesio y morwyr a'r Saeson cafodd ei alw hefyd yn Barwn Greenwich. Dyn y môr ydoedd ar hyd ei oes, dyn yr awyr agored, dyn ceffylau a ffermio a chefnogi y bywyd gwyllt. Ef oedd un o'r cyntaf i sôn am y newid hinsawdd a'r cyfrifoldeb i ofalu am yr amgylchedd. Gwnaed ef yn Dywysog yn 1957, blwyddyn ar ôl iddo ef a'i hen brifathro yn Gordonstoun greu y mudiad a fu yn hynod o ddylanwadol ym myd yr ifanc, y *Duke of Edinburgh Trust*.



Ganwyd iddo ef a'i briod bedwar o blant, ac nid oes un ohonynt yn medru gwisgo ei sgidiau, er iddo ddangos y ffordd iddynt, methodd pob un a byw i'w ddelfrydau ef. Cafodd aml i siom ond daliodd yn ffyddlon i'w ddelfrydau cadarn gyda'i grefydd Cristnogol yn ganolog i'w holl fywyd. Gofynnai aml i gwestiwn i arweinwyr yr Eglwys Anglicanaidd a chymerodd ddiddordeb mawr yn y ffydd a fu'n gynhaliaeth i'w fam a'i briod ar hyd y blynyddoedd.

Gofalodd George Thomas a James Callaghan fod Gorsedd y Beirdd yn ei dderbyn yn aelod yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn 1960 er aml anghytundeb gyda Bwrdd yr Orsedd. Fodd bynnag derbyniwyd y Tywysog i'r Wisg Werdd o dan yr enw Philip Meirionnydd. Croesawyd ef gan yr Archdderwydd Trefin (Edgar Phillips) gan fod y Frenhines Elizabeth wedi ei derbyn yn aelod o'r Orsedd yn nyddiau Cynan yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Aberpennar yn 1946.

Cyfranodd gymaint yn ei oes faith fel cefnogydd elusennau, byd chwaraeon, polo, ceffylau a noddwr o leiaf 780 o fudiadau, ac fel cadeirydd *Duke of Edinburgh Award* ar gyfer pobl ieuainc o 14 i 24 oed.

Cyflawnodd credwch neu beidio 22,219 o ymweliadau ffurfiol gyda'r Frenhines neu ar ben ei hunan a gelwid arno i siarad 5,493 o weithiau o 1952 hyd 2016, ac yn hyn o beth difyr oedd gwrando ar ei ffraethineb a'i hiwmor.

Trefnodd ei angladd ei hun ac yr oedd yr oedfa yng nghapel Castell Windsor yn afaelgar a chofiadwy. Cyflawnodd ein cyfaill Huw Edwards wrhydri ar nos Wener, pnawn Sadwrn a nos Sadwrn yn portreadu y Dug, ac yn egluro yr hyn a gymerai le ac yn sgwrsio gyda phobl hynod o ddiddorol a adnabu y Tywysog yn ei ofal am y tir a'r ystadau yn Windsor a Sandringham.

Hoffwn longyfarch y BBC am roddi i ni ddau ddiwrnod ar y radio a'r teledu, yn ogystal â S4C gyflwyniadau i atgoffa trigolion Prydain o'i dyled i'r gŵr unplyg a hardd yn ei ieuenctid, a ofalodd fod y Teulu Brenhinol yn cydweithio gyda chymaint o fudiadau a digwyddiadau. Bydd hi'n chwith hebddo a chydymdeimlwn gyda'r Frenhines a'i theulu yn y brofedigaeth a ddaeth i'w rhan. Gorffwysed mewn hedd a'i enaid yn y goleuni tragwyddol.

*YSGRIF GOFFA*

# WILLIAM GLYN THOMAS

## (1925-2021)

## BOOTLE

**Cynnyrch bywyd Cymraeg Bootle oedd Glyn a gan ei fod yn cashau'r enw William, mi ofalaf sôn amdano heb ei enw cyntaf. Roedd ei rieni yn aelodau yng nghapel y Presbyteriaid Cymraeg Stanley Road, Bootle ac yno y'i bedyddiwyd yn 1925 gan y Parchedig William Davies a'i dderbyn yn ddiweddarach yn gyflawn aelod. Roedd William Davies yn bregethwr nodedig, un o'r goreuon a glywyd ar y Maes Cenhadol yn yr India pan aeth ef allan yno yn un o dri dirprywr.**

**Yn Bootle yn ieuenctid Glyn yr oedd yna gwmni cyhoeddi o'r enw Gwasg y Brython, gweledigaeth Hugh Evans a'i feibion Howell, Meirion a Bernard Evans ac yn ddiweddarach Bronwen Evans a'i chefnder Alun H. Evans. Bu hwy yn gyfrifol am roddi gwaith i ugeiniau lawer o Gymry o'r flwyddyn 1906 i'r flwyddyn 1977 pan ddaeth y cwmni cyhoeddi i ben y dalar. Ar un adeg gweithiai 60 i'r Wasg yn ei oes aur a chafodd Glyn le yn eu plith. Cofiaf Alun H. Evans yn sôn amdano pan fyddwn yn ei holi am y Wasg, ac yn ystod fy ymweliadau reit fynych â'r pencadlys y gwelais Glyn ag eraill fel Oswald Williams, Childwall yn derbyn cyfle i weithio mewn awyrgylch wareiddiedig.**

**Hen lanc fu Glyn ar hyd ei oes faith. Roedd yn edrych yn aml ar rywyn yn ddigon syrbwch ond ar ôl dipyn o sgwrs byddai'n agor allan i sôn am ei ddiddordebau a'i ffrindiau.**

**Bu ef a'r artist Elfyn Williams, a fynychai yr un capel yn gryn ffrindiau. Golygai ffotograffiaeth gryn lawer iddo, a llwyddai yn rhyfeddol yn hynny o beth. Daliodd ei gysylltiad ag eglwys Bethania fel enw ar y llyfrau, ond ni welwyd ef yn yr oedfaon gwaetha'r modd. Stanley Road oedd ei gapel ef, a phan symudwyd oddi yno i adeiladau Capel Waterloo peidiodd yntau â mynychu.**



**Ond cafodd ffrindiau da o'r Capel i'w warchod a'i gynorthwyo yn ei unigrwydd, a'r pennaf ohonynt oedd Mrs Gwyneth Griffith.**

**Symudodd hi ai phriod i Stanley Road yn 1966 gan fwriadu aros ond pum mlynedd. Fel eraill ohonom a ddywedai yr un fath, mae'n dal yn ein plith, ac yn fam i ddau, merch Janet a mab Aled a gysegrodd ei hun i'r gwaith Cristnogol. Bu Gwyneth Griffith yn Samaritan Trugarog i Glyn Thomas, ac yn ei flynyddoedd olaf byddai'n disgwyl gormod, ac yn ffonio bob awr o'r dydd a'r nos, weithiau. Erbyn hynny roedd ei fyd yn anodd ag yntau yn ei gadair olwyn.**

**Cymerodd yr angladd le ar bnawn Mawrth, 13 Ebrill ym mynwent Bootle gan mae ei ddymuniad oedd cael gorffwys ei gorff gyda'i rieni, ei dad a fu farw yn 1945 yn 65 oed, a'i fam a ffarweliodd yn 1961. Ni ddisgwylid ond ryw bedwar ohonom, Gwyneth Griffiths, John P. Lyons, un arall a fu'n gefn iddo yn nyddiau ei argyfwng ac a fu'n llywio y trefniadau, minnau, angladd olaf un o'n haelodau. Cyfrifais mae ef yn gwthio rhif yr angladdau y bum yn ei gofal o 1968 i 2021 ar lannau Mersi a De Sir Gaerhirfryn (Cymry St Helens Junction, Ashton-in-Makerfield) i rif 652. A'r pedwerydd un oedd John Roberts, brawd yr annwyl Nerys Cook a'n gadawodd yn llawer rhy ifanc. Gan fod John Lyons a minnau, yn ôl ein harfer, yno mewn digon o bryd, cerddwyd o amgylch darn bach o Gymru ym mynwent Bootle, a gweld bedd Elwyn (Wyn) Jones a'i rieni. Bu Wyn farw naw mlynedd yn ôl, y caredicaf yn fyw, a'i gymwynasau yn ddi-ri i Bethania. Taflwyd blodyn ar ei fedd.**

**Ac yna fe ddaeth y cwmni Cymreig H. Leslie Humphreys, Crosby (a arferai hysbysebu yn *Y Bont*) a'r elor a Glyn yn ei arch, ac o leiaf 14 o'r rhai y byddai ef yn cymysgu â hwy bob dydd Mercher yn Eglwys Anglicanaidd Saint James a Saint John. Roedd yr offeiriad yno a tyrfa dda felly ac yn lle bod yn bedwar, yr oeddem dros ugain. Felly cafodd Glyn angladd tywysogaidd yr un wythnos a'r Dug Caeredin, a telais fy nheyrnged iddo, un o'r ychydig Cymry Lerpwl a fu farw o'r clefyd melltigedig coronafeirws a hynny yn Ysbyty Frenhinol Lerpwl yn nechrau Ebrill 2021.**

**Daeth i ben bywyd llawn, helbulus ar brydiau, ond fe gafodd ei warchod yn odidog gan Gwyneth, yn arbennig, a chydymdeimlwn â'i gyfnither Elisabeth sy'n byw yn yr hen wlad yn ei atgofion.**

***D. Ben Rees***

**Cysylltwch â'r**

**YR ANGOR**

PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION

'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

**garthdriveben@gmail.com**

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Derbyniodd John P. Lyons wahoddiad gan deulu y diweddar Nerys Cook i fynychu y gwasanaeth o ddiolchgarwch yn Eglwys Anglicanaidd Blundellsands ac yr oedd hynny yn weithred hardd gan fod John wedi cydweithio gyda thad Nerys, Dewi Garmon Roberts fel blaenoriaid yng nghapel Stanley Road, Bootle. Yno y trwythwyd Nerys yn ei phlentyndod a'i hieuenctid a bu ei rhieni yn ofalus ohoni hi a'i brawd a'i chwaer a'r holl deulu.

Cyfranodd Nerys yn helaeth i fywyd yr Eglwys Cristnogol, yn arbennig fel Ysgrifenyddes Esgob Warrington a chawsom ei chyfraniad wrth gadw cofnodion Ymddiriedolaeth Dewi Sant yr Eglwys Gymraeg Lerpwl. Meddai ar bersonoliaeth hoffus a charedig a bu fyw, fel y bu farw, yn ysbryd tangnefeddus yr Efengyl. Cydymdeimlwn ym Methania gyda'r holl deulu, ei phriod a'r anwyliaid, ac anfonodd Ymddiriedolaeth Dewi Sant flodau er cof a diolch amdani. Bu yn affaeliad ac yn ddisgybl o'r anwylaf.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

*Pan fydd llannau yn fagwyrydd*
*Saif teulu Duw.*
*Adeiledir teml newydd*
*I deulu Duw.*

*Cariad cyfan fydd ei seiliau*
*A brawdgarwch brwd ei muriau,*
*Llifa gras i'r byd trwy ddrysau*
*Tŷ deulu Duw.*
*Cerdd hyfryd y Parch. D. R. Thomas, Aberystwyth*

Dyma ddymuniad pob un ohoonm i gael tŷ teulu Duw â drysau agored pan fydd yn ddiogel i wneud hynny.

Yn y cyfamser mae ein diolch yn fawr iawn i'r Parchedig Robert Parry a'r Parch Ddr. D. Ben Rees am baratoi a gofalu am y maeth ysbrydol i'n cynnal ni drwy gyfrwng y *zoom*, er mwyn i ni gael oedfa ar y Sul ac Astudiaethau Beiblaidd yn ystod yr wythnos.

Mae ein diolch hefyd i Dr. John Williams yn crynhoi y newyddion a dosbarthu cylchlythyr ar y we i ni bob wythnos yn ddiffael. Diolchwn i Mr. Meirion Evans a Mr. Idris Roberts am ofalu am yr adeiladau a chlirio'r ardd, a gofalu am ein cartref ysbrydol.

Mae Miss Mair Roberts yn dal yn Townsend Hub, yn cryfhau ac yn cael pob gofal, ac yr ydym mewn cysylltiad â hi yn gyson. Braf yw cael sgwrs gyda hi ar y ffôn, mae'n anfon ei chofion atoch oll.

Mae Mrs Louie Jones yn dal yng nghartref Stapley, y Cartref Gofal ond dim ymweliad ar hyn o bryd, ac mae Nerys Vaughan Jones ac Ian y mab yn dal i wella. Ein llongyfarchiadau i Mrs Lilian Coulthard ar ddod yn hen nain unwaith eto.

Clywsom ar ddydd Mercher, 28 Ebrill am farwolaeth ein chwaer hynaws Gwenda Hughes y noson cynt yn Ysbyty Clatterbridge. Gwelid hi yn gyson yn ein hoedfaon, nid oedd y twnel yn ei hofni, a byddai'n gwerthfawrogi yn fawr bregethu grymus ym Methel. Cydymdeimlir â'i phriod Gareth yn y brofedigaeth a daw coffâd Dr. Rees yn y rhifyn nesaf. Bydd ef a'r Parchedig Robert Parry yn gofalu ar ôl y gwasanaeth yn Amlosgfa Landican maes o law.

Cafodd Tomos Rees, ŵyr Louise Jones a Meinwen a Ben Rees, driniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Luton a bellach y mae adref yn Harpenden gyda'i rieni Bethan a Hefin Rees. Myfyriwr ymchwil ym Mhrifysgol Warwick ydyw a dymunir yn dda iddo wrth gryfhau. Pob dymuniadau da i bawb ohonoch sy'n darllen y golofn hon.

## Eglwys Seion, Laird Strret, Penbedw

Fel arfer anfonwn ein cyfarchion cynnes o Seion i ddarllenwyr yr *Angor* gan obeithio eich bod i gyd mewn iechyd da ac wedi mwynhau'r tywydd heulog braf a gawsom bron ar hyd mis Ebrill.

Rwyf yn sicr eich bod, hefyd wedi cael mwynhad mawr wrth ddarllen yr ysgrif yn yr Angor olaf gan Y Parchg. Athro D Ben Rees yn cyflwyno ei olynydd sef Y Parchedig Robert Parry B.D. B.Mus. Mae'n ysgrif gynhwysfawr a diddorol iawn yn rhoi hanes ei fywyd, ei yrfa, ei deulu, a'i gefndir gyda lluniau lliwgar. Diolch yn fawr am ysgrif mor werthfawr sydd o gymorth i ni i adnabod ein gweinidog yn well. Mawr obeithiwn y bydd yn bosibl cynnal ei Gyfarfod Sefydlu yn yr Ofalaeth Newydd pnawn Sadwrn Medi 18 2021.

Ar hyn o bryd rydym wedi nodi y Sul cyntaf yn Medi fel y Sul i ailddechreu cyfarfod yn y capel ond mae hyn yn dibynnu ar y sefyllfa gyda'r coronafeirws.

Dyma'r tro cyntaf i ni yn Seion gael Gweinidog i edrych ar ôl yr Eglwys ers pan unwyd Eglwys Rake Lane Wallasey ag Eglwys Salem, Laird Street bron i ugain mlynedd yn ôl.

Cawsom y gwasanaeth cyntaf fel Eglwys newydd, sef Seion ar fore Sul Gorffennaf yr 8ed 2001. Er ein bod heb weinidog buom yn ffodus iawn o gael gwasanaeth pob Sul a chael gweinidogion a lleygwyr yn eu cynnal ar hyd y blynyddoedd a mawr yw ein diolch i'r Parchedig Athro D. Ben Rees am drefnu y rhestr pregethwyr yn flynyddol.

Gan fod Eglwys Bethel yn cael eu gwasanaeth yn y bore a'n gwasanaeth ni yn Seion yn y pnawn roeddem ran amlaf yn cael yr un pregethwr ar y Sul.

Y tro olaf i ni gael gwasanaeth yn Seion oedd pnawn Sul Mawrth 15ed 2020 gyda'r Parchedig Victor Edwards yn pregethu a'r diweddar Terry O'Neill yn cyfeilio.

Mae'r gwasanaeth ar *Zoom* ar fore Sul wedi bod yn fendithiol iawn, rhywbeth i edrych ymlaen ato o Sul i Sul ac yr ydym wedi derbyn rhywbeth arbennig wrth wrando arnynt. Yn bersonol maent wedi codi fy ysbryd i bob Sul.

Pan ddaw'r amser pryd y cawn fwy o ryddid byddwn yn cael gwasanaeth yn y capel unwaith eto. Fe fydd yn hyfryd iawn cael cyfarfod a'n gilydd yn Seion Laird Street unwaith eto ac edrychwn ymlaen yn eiddgar i groesawu'n gweinidog talentog yn gynnes iawn gan ddymuno pob hapusrwydd iddo yn ei swydd newydd a bendithied Duw ef yn ei waith.

Cadwch yn ddiogel a phob bendith arnoch i gyd.

CYMRAEG
**Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

*Cyhoeddwyd gan*
*Bwyllgor yr Angor,*
*Heathfield Road, Lerpwl 15.*

*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn,*
*Llanuwchllyn 07729 960484*

# TARO POST AC E-BOST

***Cyfraniad Nodedig***

*Prifysgol Aberystwyth*
*11 Ebrill 2021*

*Annwyl Gyfaill*

Diolch yn fawr ichi Ben. Dyma gyfle imi ddymuno'n dda ar eich ymddeoliad gan ddiolch yn fawr iawn am eich holl gyfraniad i fywyd ysbrydol a diwylliannol Lerpwl a'r Glannau ar hyd y blynyddoedd – cyfraniad nodedig iawn, yn wir.

*Gyda chofion gorau,*
*Bleddyn Owen Huws*

---

***Gwerthfawrogiad Didwyll***

*9/4/2021*

*Annwyl Dr. Ben,*

Diolch yn fawr Dr. Ben ac y mae'r teyrngedau o'ch eiddo yn *Yr Ango*r yn hollol wir a haeddiannol. Dach chi wedi gwneud gwaith mawr a rhoi eich bywyd at wasanaeth yr Arglwydd yn fendigedig ac ydw i hefyd yn eich gwerthfawrogir. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth i mi pan oeddwn yn gaplan yn Lerpwl ac am bob peth.

*Cofion diffuant iawn atoch chi a Meinwen.*
*Eleri (Edwards)*

---

***Ymddeoliad Prysur***

*Ynys Môn*
*9/4/2021*

*Annwyl Ben,*

Diolch yn fawr am *Yr Angor,* Ben. Newyd ddarllen dy erthygl yn Barn, pob dymuniad da iti wrth ymddeol, ond heb os ymddeoliad tra phrysur fydd ef.

*Cofion gorau,*
*Derec Llwyd Morgan*

***Cyflwyniad Penigamp***

*Coed-llai,*
*Sir y Fflint*
*9/4/2021*

*Annwyl Gyfaill*

Daeth *Yr Angor* i'n llonni amser cinio, ac mae'n rhaid dweud mor eithriadol o falch a hapus oeddwn i gyda'r cyflwyniad penigamp yma. Gwn y bydd fy rhieni a'm teulu yn falch iawn o'i gael. Diolch o waelod calon.

*Robert Parry*

---

***Clywed am yr Ymddeoliad***

*Pentyrch,*
*Caerdydd*
*1/4/2021*

*Annwyl Ben a Meinwen*

Cael ar ddeall dy fod wedi ymddeol heddiw wedi blynyddoedd o wasanaeth clodwiw yn Lerpwl ac Abercynon cyn hynny. Dyma Eira a minnau yn dymuno'n dda i'r ddau ohonoch ac yn gobeithio am flynyddoedd o ddedwyddwch a iechyd.

*Cofion cynnes iawn,*
*Gwilym ac Eira Williams*


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

National Association of Funeral Directors® Est 1905

CYFRES NEWYDD

# Ddoe a Heddiw yn Ardal Manceinion

## Capel Bolton – Hafan Gobaith i'r Cymry

### gan y Parchedig Eleri Edwards

Roedd Bolton yn rhan o Ofalaeth Ogleddol Henaduriaeth Manceinion pan oedd llawer o gapeli Cymraeg yn cael eu sefydlu yma dros Glawdd Offa. Dechreuodd y lês ar y tir yn Bolton yn 1872. Yn yr archif, yn 1884 roedd deuddeg Ysgol Sabothol yng Nghyfarfod Misol Manchester ac roedd Bolton yn reit llewyrchus gyda 12 o athrawon a 132 o blant. Beth sy'n fy nharo wrth ddarllen yr hanes yw brwdfrydedd y Cymry a'r ffydd ddiffuant a'u hysbrydolodd i sefydlu capeli er gwaethaf yr holl reolau a'r trafferthion gweinyddol heb sôn am y gost. Roeddynt yn anwylo eu hetifeddiaeth, yn caru eu hiaith a'u traddodiadau yn angerddol, yn falch o fod yn Gymry ac yn Gristnogion, ac yn mynnu gwneud eu gorau glas i fyw er gogoniant i Dduw ac i gadw eu treftadaeth yn fyw ac yn ddiogel ar gyfer eu plant. Sefydlu capeli Cymraeg o frics a'u haddurno yn deilwng i roi gogoniant i Dduw - dyna oedd eu nod.

Yn 1895 roedd Ysgol Sul capel Bolton wedi cael rhodd o lyfrau er mwyn creu llyfrgell i'r plant, ond nid oedd gan neb brofiad sut i redeg llyfrgell. Gwelwn fendith pwyllgorau pan sefydlwyd pwyllgor bach o bump i edrych i mewn i'r pwnc: casglu gwybodaeth gan eglwysi eraill, cael 'catalog' gan y Feibl Gymdeithas, enwi llyfrgellydd, a *'Pasiwyd fod i ni ofyn i'r Parch Edward Parry Newtown i ddweud gair am 'Libraries' yn y Seiat y Saboth nesaf'*. Mae'n amlwg bod gweinidogion i fod i wybod am lawer o bynciau ar wahân i bregethu!

Gwelir hefyd gonsyrn y Cristnogion Cymraeg dros eraill ac yn 1897 gwnaethpwyd 'casgliad i'r tlodion, a chasgliad i'r Gronfa Gynorthwyol, i'r Achosion Saesneg ac i'r Infirmary' – Ym marn y bobl, roedd y casgliadau hyn yn golygu cymorth i feysydd cenhadol tu hwnt i bedwar mur y capel – yn ôl cyfarwyddiadau ein Harglwydd trwy Paul: ' Cariwch feichiau eich gilydd, ac felly fe gyflawnwch Gyfraith Crist' (Galatiaid 6:2).

Roedd Deddf Priodas *(Marriage Act)* yn 1898 wedi dod i rym ac yn dweud bod gan Capeli Anghydffurfiol yr un hawl a oedd gan yr Eglwys Sefydledig, y Crynwyr a'r Iddewon, i gofrestru priodasau os oedd yna berson



***Capel Cymraeg Gas Street, Bolton***

Awdurdodedig yn bresennol. Y gweinidog neu un o swyddogion y capel oedd yn cael ei enwi fel 'person awdurdodedig' *(Authorized Person)*. Erbyn 1910 roedd gan Capel Bolton ei gofrestr ei hun ac ynddo gwelwn enwau'r cwpl cyntaf a briododd yng nghapel Bolton y flwyddyn honno:

***1910 Joshua Negus 'House decorator, age 23 and Elizabeth Davies, Domestic Servant, age 26.***

Y Parch John Stanley Roberts oedd y gweinidog yn gweinyddu.

Y rhai olaf i gael eu cofrestru yn llyfr priodasau Bolton yn y flwyddyn 1963 oedd:

***Derrick Fletcher 26, Bachelor, Accounts Clerk Textile Manufacturer;***
***Glenys May Jones, 23 Spinster, Examiner Hosiery Works.***

Y Parch J. Mark Davies oedd yn gweinyddu.

**1914** – O'r ysgrifau a'r lluniau mae'n amlwg bod pawb yn cefnogi dathliadau yn y capeli ac yng nghefn llyfr cyfrifon Ysgol Sul Clarence Street Bolton gwelir mewn pensil restr o beth i'w brynu ar

**2lbs Tea; 4lbs Butter; 4lbs Lump Sugar; 1 Boiled Ham 81/4lbs; 13 x 2lb White Loaves; 4 x 2lb Brown Loaves; 12 Raisin Loaves; 4 Quarts of Milk**

gyfer y parti Ysgol Sul. Am nad oes lluniau nac adroddiad o'r hwyl mae angen ychydig o ddychymyg!

Roedd gofal am y rhai mewn angen yn gyffredin – yn rhan o fywyd y capeli mae'n debyg, ac o dro i dro, mae'r cofnodion yn rhoi cipolwg ar yr ysbryd Cristnogol ar waith. Er engraifft, yn 1932 bu penderfyniad yng nghapel Bolton i yrru llongyfarchiadau trwy'r ysgrifennydd i gyn weinidog am yr anrhydedd o gael ei ethol yn Llywydd y Gymdeithasfa. Yn hwyrach yn y flwyddyn trafodwyd un teulu neilltuol yn yr Eglwys a oedd yn dlawd ac 'yn wirfoddol estynnodd y swyddogion gyfraniad personol, cyfraniad i'w roddi yn wythnosol i'r teulu hyd derfyn y flwyddyn ac ymddiriedwyd y gwaith o gyfrannu i'r gweinidog – yr oedd oll o'r swyddogion yn bresennol...'

Roedd pregethu yn dra-phwysig a ffyddloniaid y ddinas yn hoff o glywed hoelion wyth yr Enwad. Yn 1938 mae'r cofnod yn dweud bod Pwyllgor Bolton wedi penderfynu gwahodd Dr Martin Lloyd Jones i gynnal eu Cyfarfod Pregethu yn 1939 a'r Parch Tom Nefyn Williams i Gyfarfod Pregethu'r Bobl Ifanc. Ond cafwyd ergyd annisgwyl yn fuan wedyn a canslwyd y gwahoddiad i'r ddau weinidog enwog. Nid oeddent yn gwybod bod yr ail ryfel byd ar y trothwy. Ond yr ergyd a ysgytwodd capel oedd marwolaeth ddi-symwth a hollol annisgwyl un o'r swyddogion a alwyd 'Ein hybarch Dad a chyd-swyddog Mr John Roberts'. Disgrifwyd Mr John



*Capel Gas Street – Cau'r Capel 1998*

Roberts fel dyn eithriadol'y blaenaf oll'. ' fe ddymunem dalu diolchgarwch gwir i'r Arglwydd am ei fywyd o wasanaeth eithriadol i'r eglwys fel blaenor am 57 mlynedd. Perchenogai feddwl clir, adeiladol, argyhoeddiedig, bob amser o'i rwymedigaeth grefyddol ac ysbrydol i eglwys y Tabernacl....perchenogai bersonoliaeth fawr a diwylliodd hi yn naturiol ac ysbrydol a cheid mewn canlyniad ffrwyth ei farn aeddfed ar bynciau eglwysig...

Y mae gan y Parchedig Ddr D. Ben Rees ysgrif gyflawn ohono yn ei gyfrol ar y cenhadon yng Ngogledd ddwyrain yr India, sef *Llestri Gras a Gobaith* (2003).

'Beth bynnag yr ymaflo dy law ynddo gwna ef a'th holl egni' dyna mae'n amlwg oedd arwyddair y cymeriad yma oedd mor annwyl i'w gyd-weithwyr a'r gynulleidfa. Mae'r cofnod yn gorffen gyda'r geiriau hyn:

*'Carai'r Achos fel ei enaid ei hun. Edmygai ei gyd-swyddogion a charai hwynt hyd y diwedd. Gweddïodd lawer, cynghorodd lawer, myfyriodd lawer ar bethau ysbrydol. Diolchwn i Arglwydd y winllan am ei fywyd'.*

Yn 1946, ymddeolodd y gweinidog y Parch W. D. Thomas a oedd wedi bod yno am 15 mlynedd, yn amlwg yn uchel ei barch ac yn ôl yr archif 'dygasant oll deyrnged uchel i'w gweinidog am ei wasanaeth llwyr a ffyddlon fel bugail, dyn, pregethwr, cyfaill a Chymro eiddgar....'. Meddai'r *Bolton Evening News:*

***The retirement of the Rev W.D. Thomas means tht the Welsh Tabernacle Duke's Alley will be without a pastor for the first time since 1931. The loss will be a very severe one...those who have been brought up to worship in their mother tongue do not get the same religious feeling from an English Service. ...Before coming to Bolton, Mr Thomas was in Caernarfonshire prior to which he was for a number of years in the USA. Following his retirement he and his wife are to live in Aber, North Wales.***

Yn 1948 daeth y Parch T. A. Williams yn gweinidog ar y ddwy Eglwys Bolton a Bury ac erbyn 1965 roedd Bolton yn rhan o'r Ofalaeth gyda Rochdale, Pendleton a Heywood Street a sefydlwyd gweinidog newydd y Parch Richard John Evans a oedd wedi bod yn fugail ar eglwysi Bethel Rhydycymerau, Esgairnant, a Llansawel. 'Y Parch Gareth John Reynolds oedd yn cynrychioli'r Henaduriaeth ac i gyflwyno'r Siars i'r Eglwysi roedd Parch Alun Davies, BA Llansamlet'.

Agorodd Gas Street Bolton ei ddrysau yn 1963 am fod angen symud o'r Duke's Alley oherwydd datblygiadau'r dref ac er bod nifer yr aelodau yn fach roedd yn llawn bwrlwm ac yn fywiog iawn. Capel bach clud oedd Gas Street, 'agos atoch' fel y gwelir yn y darlun uchod. Ond fel sy'n digwydd mewn capeli dros y ffin, daeth tro ar fyd ac yn 1998 - roedd yn amser i gau'r drws ac ymuno â Chapel Cymraeg arall yn yr ardal. Cafwyd Gwasanaeth hyfryd, gyda chroeso cynnes gan yr unig flaenor Mrs Neli Hudson, brodor o Rosllanerchrugog. Rhoddodd hefyd ychydig o hanes y Capel ac atgofion yr achos yn Bolton, yr adeilad cyntaf yn Duke's Alley, a'r ail yn Gas Street. Daeth dau gyn-flaenor i'r gwasanaeth olaf i dalu'r deyrnged olaf i'w hen gapel. Roedd hi'n brynhawn olaf ym mis Mai 1998 - braf oedd gweld y tŷ yn llawn o flaenoriaid ac aelodau'r chwaer gapeli yn Henaduriaeth Manceinion ynghyd a nifer o gyn-aelodau a chyfeillion Eglwys Bolton. Dydd cau drysau y capel bach *'a fu yn hafan a chartref ysbrydol i lawer Cymro dros y blynyddoedd'*. Ond yn fuan daeth diwrnod arall, dydd agor drws i aelodau Bolton o dan enw newydd sef Noddfa Cheetham i fod yn 'Hafan Gobaith y Ddwy Eglwys' i'r dyfodol.

Mae yna ychwanegiad ardderchog i hanes capel Bolton. Fel yr oedd Capel Gas Street yn cau, roedd yna fenter newydd yng Nghymru sef agoriad capel newydd, capel Carmel ger Caernarfon.

Rhoddodd capel Bolton lawer o'r dodrefn i gapel Carmel a chafwyd erthygl bendigedig yn y *Liverpool Daily Post* yn Saesneg yn 1999 pan agorwyd Carmel:

***Presbyterians in Bolton had a part to play in the furnishing of the new Capel Carmel Caernarfon. Last year they were forced to close their Gas Street Chapel because of dwindling membership but readily cooperated with people in Carmel to make the furnishings of their chapel including pulpit, big pew and chairs available. Mrs Dilys Williams elder of the Bolton Chapel says: 'We were so pleased that our furnishings were being given to a well-deserved home because we had always feared they would be scrapped...'***

Erbyn 2021, mae Capel Cheetham Hill lle'r aeth aelodau Bolton wedi i'w capel gau, wedi gorfod ildio hefyd i'r drefn o ddiffyg aelodau. Dyna hanes y capeli Cymraeg mewn llawer o ddinasoedd yng Nghymru (er enghraifft y Rhyl) ac yn arbennig dros y ffin yn Lloegr.

Ond mae cofio ymdrech, tystiolaeth a llawenydd y Cristnogion Cymraeg yn Manceinion a'r cyffiniau yn y y gorffennol yn rhoi hwb i ni, y gweddill ffyddlon, i'r dyfodol. Nid hanes trist mohono, ond rhythm naturiol, trefn gymdeithasegol a ninnau yn gorfod datblygu a chario ymlaen gan ofyn am ras i fod yn ufudd a ffyddlon i Dduw yn 2021. Gofynnwn hefyd fel teulu Duw sydd yn creu Hafan Gobaith i eraill y dyddiau hyn ac felly yn rhoddi gogoniant i Dduw trwy ein bywydau a'n heglwysi.



*Capel Carmel, Caernarfon 1999*

***Cyflwyno***

# MARION EAMES


## (1921-2007)

**gan Dr. Pat Williams**

Mae 2021 yn flwyddyn dathlu canmlwyddiant Marion Eames. Fe'i ganed i deulu Cymraeg ym Mhenbedw ond pan oedd yn bedair blwydd oed symudasant i Ddolgellau. Yno y'i magwyd a derbyn addysg gyfrwng Saesneg yn Ysgol Dr Williams. Nid nes iddi ddechrau gweithio fel llyfrgellydd yn Nolgellau ac wedyn yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth y dechreuodd ymhyfrydu yn ei Chymreictod – cymaint felly nes dod yn drefnydd i Blaid Cymru maes o law.

Er nad aeth ymlaen i addysg uwch yn syth o'r ysgol cafodd gyfle yn ddiweddarach i astudio'r piano a'r delyn yn Ysgol Guildhall Cerdd a Drama yn Llundain. Yn y brifddinas cyfarfu â'r newyddiadurwr Griffith Williams. Priodasant ac ar ôl byw yn Llundain am gyfnod, dychwelasant i Gymru. Cafodd Marion ei phenodi'n gynhyrchydd radio gyda'r BBC yng Nghaerdydd a'i gŵr yn ohebydd ar y *Western Mail*.

Erbyn hynny roedd hi wedi meistroli'r iaith Gymraeg yn ddigon da i ysgrifennu ynddi. Roedd yn un o sgriptwyr cynnar *Pobol y Cwm* ac yn ddiweddarach yn olygydd papur lleol wythnosol *Y Dydd*, ond fel nofelydd y cofir amdani hi yn bennaf. Mae'n debyg mai ei nofel *Y Stafell Ddirgel* (1969), a addaswyd yn ddrama deledu, yw ei nofel fwyaf adnabyddus. Mae'r prif gymeriad, y




*Y Stafell Ddirgel – ei nofel fwyaf adnabyddus*



*Marion Eames*

Crynwr Rowland Ellis, yn cael ei orfodi i adael ei gynefin yn Nolgellau oherwydd erledigaeth grefyddol yn ystod teyrnasiad Siarl II; sefydlodd gymuned Gymraeg yn Mhensylfania, lle y gobeithiai y câi ryddid i addoli yn ôl ei ddymuniad a'i gydwybod. Dilynwyd y nofel hon gan *Y Rhandir Mwyn* sy'n dilyn hynt a helynt y Crynwyr Cymreig ar ôl iddynt sefydlu yn Unol Daleithiau America. Cyfarfyddwn eto â phrif gymeriadau *Y Stafell Ddirgel* ynghyd â rhai newydd, ond gan mai hanes cymuned yw hon nid yw un cymeriad yn fwy amlwg na'i gilydd a dadlennir cymhellion a breuddwydion pob un. Crynwr oedd gŵr yr awdur ac efallai mai dyna paham yr ymddiddorodd hi gymaint yn yr enwad hwnnw.

Yn 1982 cyhoeddodd *Y Gaeaf Sydd Unig* i nodi saithganmlwyddiant lladd Llywelyn ein Llyw Olaf. Gwnaeth lawer o waith ymchwil i hanes y drydedd ganrif ar ddeg ar gyfer y nofel hon sydd wedi ei lleoli yng Nghastell y Bere ac yn plethu hanes cymeriadau hanesyddol a rhai dychmygol. Hoeliodd ei sylw ar gyfnod mwy modern ar gyfer dwy nofel arall:


(i) *Seren Gaeth* (1985) am briodas rhwng gŵr academaidd o anffyddiwr â merch dalentog sy'n astudio cerddoriaeth ac yn cael ei rhwygo rhwng ei chariad at ei gŵr a'i phrofiadau ysbrydol.

(ii) *Y Ferch Dawel* (1992) sy'n ymwneud ag effaith seicolegol mabwysiadu a chyfrinachau teulu.

Dengys y ddwy nofel hyn nad oedd yr awdur yn osgoi trafod problemau annymunol fel priodasau anhapus a pherthnasau llosgachol.

Ond y nofel sydd o ddiddoreb arbennig i ddarllenwyr *Yr Angor* yw *I Hela Cnau*, sydd wedi ei lleoli ar Lannau Mersi. Rebecca Parry yw'r prif gymeriad, sydd yn rhedeg i ffwrdd o'i chartref i osgoi creulondeb ei thad afresymol oedd yn ei thrin fel morwyn ddi-dâl ac yn gwrthod gadael iddi dderbyn y cynnig o fod yn 'biwpil-titsiar'. Cafodd waith fel morwyn yn 'Bircynhed' ond roedd hi'n rhy uchelgeisiol i dderbyn mai gweini fyddai ei thynged am byth. Mae'r nofel yn rhoi portread byw o dwf Penbedw yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a chychwyn y gymuned Gymraeg ar Lannau Mersi. Drwy gyfrwng gweithredoedd y cymeriadau a'u hymddiddanion cyflwynir themâu fel democratiaeth, annibyniaeth cenedl, caethwasiaeth, culni crefyddol, rhagrith, hawliau dynol ac agwedd yr oes at ferched.

Ysgrifennodd Marion Eames hefyd lyfrau ar gyfer plant a pharatodd gyflwyniad i lenyddiaeth Gymraeg ar gyfer darllenwyr Saesneg ar y teitl *A Private Language* (1997). Cydnabuwyd ei chyfraniad i lenyddiaeth gan Brifysgol Cymru a'i hanrhydeddodd â gradd. Bu farw ym mis Ebrill 2007. Cafwyd gwasanaeth o ddiolchgarwch am ei bywyd yn Nolgellau a thaenwyd ei llwch ar fedd ei diweddar ŵr ym Mhentywyn, Sir Gaerfyrddin.




*'I Hela Cnau', sydd wedi ei lleoli ar Lannau Mersi.*

## MERSEYSIDE WELSH HERITAGE SOCIETY

# *APPEAL 2020 AND 2021*

***prepared by Dr. D. B. Rees (Chairman/Author), Rachel Gooding (Treasurer) and Dr. Arthur Thomas (Secretary)***

**LIVERPOOL WELSH: A REMARKABLE HISTORY.**
Gwasg Y Lolfa, Talybont has given us the good news that the volume *Liverpool Welsh: A Remarkable History* will be in the booksellers summer 2021.

We are so grateful for List 12 as we had received by 30 April 2021 the sum of £6,275. Every donation will be gratefully received and acknowledged in the book by inserting your name and a gift will ensure you a copy of a hard back volume. It will be signed and you will be invited to the launching of the book in late summer of 2021.

**List 1: £550; List 2: £450; List 3: £200;**

**List 4: £420; List 5: £510; List 6: £185; List 7: £150;**

**List 8: £350; List 9: £325; List 10: £70; List 11: £145;**

**List 12: £670; List 13: £2,050**

### LIST TWELVE (1/4/2021 i 30/4/2021)

1) Margaret Anwyl Williams, Allerton, Liverpool the sum of ..........................................................................£100
2) St. David's Welsh Church Charity, the sum of ..............£1,750
3) University of Wales Guild of Graduates Liverpool Branch the sum of ............................................£200

**Total / Cyfanswm ...............................£2,050**

So we have reached the sum of £6,275 as well at the £2,000 from the proceeds of the Welsh Book.

***With your help we have reached the goal, but we need to launch the volume, so we will keep the appeal open for the time we have agreed on.***

***Can you please send your donations to Merseyside Welsh Heritage Society / Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi c/o 32 Garth Drive, Liverpool L18 6HW.***

## GWLEDD ZOOM O LERPWL

***(Mai i Mehefin 2021)***

**AR Y SUL**

**MAI:**
**Bore Sul, 9 Mai am 11 o'r gloch**
**Bore Sul, 16 Mai am 11 o'r gloch**
**Bore Sul, 23 Mai am 11 o'r gloch**
**Oedfaon o dan ofal y Parch. Robert Parry.**
**Bore Sul, 30 Mai o dan ofal Dr D B Rees - ef fydd yn darlithio ar 'Broblemau Meddygol Porthladd Lerpwl yn y C19'.**

**Bydd Dr D Ben Rees yn cyflwyno Darlith ar Nos Lun 17 Mai ar 'Cyflwyno Clwyd yn y Canrifoedd Cynnar'. Llywydd: Roderick Owen.**

**MEHEFIN:**
**Bore Sul, 6 Mehefin am 11 o'r gloch**
**Oedfa o dan ofal y Parch. Olaf Davies, Llandegfan, Môn.**
**Bore Sul, 13 Mehefin am 11 o'r gloch**
**Oedfa o dan ofal y Parch. Gwenda Richards, Caernarfon.**
**Bore Sul, 20 Mehefin am 11 o'r gloch**
**Oedfa o dan ofal y Parchedig Robert Parry.**
**Bore Sul, 27 Mehefin am 11 o'r gloch**

# CORNEL Y TRYSORYDD



## MEHEFIN 2021

| | |
|---|---|
| Mrs Gwenda Roberts, Bae Colwyn | £20.00 |
| Mr Cliff a Eirlys Bailey, Woolton | £50.00 |
| Mr E. W. Williams, Childwall | £15.00 |
| Parch John Morris, Llanddaniel Fab | £100.00 |
| Mr Arwel Williams, Roby | £25.00 |
| Rhodd Dienw, Allerton | £51.00 |
| Cyfanswm | £261.00 |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

## *GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor*.
- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Gorffennaf 2021** erbyn bore Mawrth, 1 Mehefin 2021 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i garthdriveben@gmail.com
- **Rhifyn Awst/Medi 2021** – erbyn bore Iau, 1 Gorffennaf, 2021 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd pnawn Iau.
- **Rhifyn Hydref 2021 –** erbyn bore Mercher, 1 Medi 2021, gan yr aiff y cyfan am hanner dydd i Benllyn i'w osod.
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).
- **Croeso – i'ch llythyron, adolygiadau etc, ac ambell erthygl i'r Golygydd cyn 1/6/2021.**

**Daliwch i swatio a darllen Yr Angor**

# Teulu Richards o Benllwyn: Pobol Stanley Road, Bootle

***gan D. Ben Rees***

Mae amser meddai pawb ohonom yn lleddfu ing profedigaethau, mae hefyd yn gyfrwng anghofio pobl a fu mor weithgar yn y cymunedau. Bardd a weithiodd yn gelfydd ar y wythïen hon yw J. Glyn Davies. Ac y mae ei delyneg i'r Hen Forwr a luniodd yn 1943 yn cyfleu i'r dim y gair o'r Ysgrythur.

Bu hefyd rai heb fod coffa amdanynt, y rhai y darfu amdanynt fel pe na buasent. Y mae'r delyneg yn haeddu ei chyhoeddi'n llawn.

*Hen forwr dinod yn y fynwent wledig,*
*fan hyn tan gudd, yn bell o sŵn y byd,*
*pwy ŵyr amdano? A oes rhywun debyg*
*o'i gofio yn yr ardal hon o hyd?*

*Ac eto bu yn grefftwr gyda'r gwyntoedd,*
*a gosod hwyliau, trin ei long ar fôr,*
*"All royals set", i hwylio i borthladdoedd*
*Periw a Chile a San Salvador.*

*Fe ganodd hwn wrth yru'r iardau i fyny,*
*a chodi angor yn y porthladd pell,*
*a'i enaid ifanc yn dyheu am Gymru;*
*ni wyddai hwn erioed am wlad oedd well.*

*Fe rowndiodd hwn yr Horn drwy stormydd gaea'*
*cynefin oedd â niwloedd Labrador,*
*a mochel gwres dan balmwydd Sourabaya,*
*a cherdded strydoedd poethion Singapore.*

*Fe garodd drwst y dociau mawr a'u trefydd,*
*Bwmbau a Frisco, Antwerp a Hong Kong;*
*ond dyma ef mewn llecyn digon llonydd,*
*yn forwr dinod, diddim heb ei long.*

Canodd J. Glyn Davies, un o feirdd pennaf Cymry Lerpwl, yn gelfydd gofiadwy, a tharo'r nodyn sy'n goleuo fy rhagymadrodd i deulu a dreuliodd flynyddoedd ar y Glannau. Ymserchais yn hanes y teulu am un rheswm yn unig, ei bod yn hanu o ardal Capel Bangor, o'r un sir â minnau. A bum yn chwilota am eu hanes ar ôl imi ddod ar draws eu henwau ar lyfrau Capel Cymraeg y Methodistiaid Calfinaidd Stanley Road, Bootle. Dau frawd a chwaer sydd yn y teulu hwn, hen deulu Gwarcwm, Penllwyn ger Aberystwyth.

I ddechrau soniaf am Richard Richards (1862-1934) gŵr a ddaeth yn bymtheg oed i Bootle ac arhosodd yno weddill ei ddyddiau. Yr oedd Richard Richards yn meddu ar ddawn y bardd, a pherthynai i nythaid o feirdd a welid yn nhref Bootle ym mlynyddoedd cyntaf yr ugeinfed ganrif, pobl fel Robert Parry (Madryn) a G. Dwyfach Jones. Lluniodd Gwilym Deudraeth englynion gogleisiol i Dwyfach yn ei gaethiwed;

A mi yn wir yma'n iach – heb ochain,
Heb achos i rwgnach;
Meddwl yr wyf am Ddwyfach
Draw yn ei boen, druan bach.

Euog wyf werth ei gofio - am na fûm
Yn fwy fy sêl iddo;
Ga'i weled Dwyfach eto
Yn ddyn rhydd i faddau 'nhro?

Clywais ei fod yn codi – da iawn wir,
Daw'n araf drwy ynni
A hir wydnwch i Rodney
Eto mewn nerth atom ni.

Mae gofid, mae gaeafau – onid ynt?
Yn dweud arnom ninnau;
Y gwir eddyf ein gruddiau –
Mynd i oed yr ym ein dau!

Gwelir cerddi Richard Richards yn y Brython yn achlysurol, cerddi hiraethus, crefyddol ydynt. Meddai Richard Richards ar ysbryd dwys. Gŵr o ddifrif. Dywedir i'w Weinidog, y Parchedig William Davies, pregethwr nerthol a dawnus, cael un o oedfaon mwyaf ei weinidogaeth wrth weinyddu y sacrament o Swper yr Arglwydd i'r bardd o Gapel Bangor yn ei gystudd olaf. Geiriau William Davies ddydd ei arwyl oedd:

> Ynddo ef cawsom ar ambell dro ryw syniad o'r hyn fydd y saint tu draw i'r bedd.

Yr oedd Richard Richards yn ŵr tanbaid, ac mewn teyrnged hyfryd iddo dywedodd E Meirion Evans (un o benaethiaid Gwasg y Brython yr adeg honno a blaenor yng nghapel Stanley Road) –

> Moddion gras oedd gwrando ar Richard Richards yn tynnu yn rhaffau'r addewidion mewn cyfarfod gweddi.

Peidiodd y cyfarfodydd grasol hyn bron ym mhob man. Yr unig gyfarfodydd gweddi cyson yn Gymraeg bellachar y Glannau yw yn y gymuned o dan fy ngofal yn ymyl Penny Lane. A llond dau ddwrn a ddawn ar y mwyaf hyd yn oed adeg Cyfarfodydd Diolchgarwch am y Cynhaeaf. Ond yn nyddiau Richard Richards yr oedd y cyfarfod gweddi yn dal i ddenu'r Cymry. Yr oedd ei frawd David Richard (1864-1935) yr un mor ddefosiynol-dduwiol. Dyma gofnod i brofi peth, o ysgrifbin E. Meirion Evans:

> Bu'n aelod ffyddlon a gwerthfawr o eglwys Stanley Road ar hyd y blynyddoedd (1880 i 1935), yn ffyddlon yn yr holl dŷ, a chymerai ran mewn cyfarfod gweddi a seiat gydag arddeliad oherwydd crefyddolder a sirioldeb ei ysbryd.

Chwaraeodd ran amlwg yn addysg grefyddol yr Eglwys. Am ddeg mlynedd ar hugain bu'n athro yr Ysgol Sul ac yn paratoi'n fanwl ar gyfer ei ddosbarth o oedolion. Edrychai ymlaen am yr esboniadau a baratoid, rhai gan weinidogion ei enwad ar y Glannau, ac eraill gan weinidogion ysgolheigaidd a ddeuai ar eu troi i Lerpwl i draethu'r gwirionedd yng Nghrist Iesu. Rhoddodd



***Capel Penllwyn ar fin y ffordd fawr rhwng Ponterwyd a Llanbadarn Fawr.***

dymor sylweddol fel Arolygwr yr Ysgol Sul, swydd gyfrifol arall. Ef fyddai'n llywio'r gweithgareddau, gofalu bod rhywun yn cymryd y defosiwn ar ddechrau'r Ysgol, yn rhoddi cyfle i'r Ysgrifennydd nodi yr ystadegau, gwneud y cyhoeddiadau, a chyhoeddi'r fendith. Gwaned y cyfan gyda graen, democratiaeth weithredol, ar ei orau.

Ond wrth edrych yn ôl credaf mai cyfraniad pennaf David Richards oedd yn ystod blynyddoedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Apwyntiwyd ef yn Ysgrifennydd Pwyllgor yr Eglwys i ofalu ar ôl buddiannau y brodyr a ymatebodd i berswâd David Lloyd George a John Williams, Brynsiencyn a gweinidogion eraill a welai y gyflafan honno fel rhyfel gyfiawn. Yr oedd 462 o frodyr yn gyflawn aelodau yng nghapel Stanley Road a phenderfynodd 230 ohonynt ymuno gyda lluoedd arfog, eu hanner a hefyd wyth o ferched. Dyma a ddywedir yn y gyfrol flasus ar Hanes yr Achos sef *Camau'r Cysegr* a baratowyd gan dad Meirion Evans, yr anghymharol Hugh Evans, sylfaenydd Gwasg y Brython:

> Ymdrechwyd cadw mewn cyffyrddiad byw a phob aelod oedd oddi cartref trwy drefnu i ryw frawd neu chwaer anfon llythyr unwaith y mis at bob un o'r milwyr a'r morwyr. Ac nid gwaith bychan oedd casglu dros ddeucant o wahanol gyfeiriadau rhai oedd yn symud o'r naill fan i'r llall. Ynghanol berw mawr y rhyfel, a'u dosbarthu rhwng aelodau'r eglwys oedd yn barod i ysgrifennu atynt... . Yn y cyfarfod 'Croeso Adref' cyflwynwyd y bechgyn gan David Richards, a weithiodd mewn amser ac allan o amser dros achos ein milwyr a'n morwyr.

Dyma ei gyfraniad mawr, cyfraniad gwerthfawr a hir gofir yn Stanley Road. Nid rhyfedd fod blodeugyrch ar ei fedd ym mynwent Longmoor Lane ar ddydd Mercher 12, Mehefin 1935 oddi wrth "cyn filwyr Stanley Road". Rhoddwyd blodeugyrch oddi wrth ei Ddosbarth Ysgol Sul, Cyfeillion o'r Ysgol Sul a Chlwb Bowlio y Cambria. Mae hyn yn haeddu peth esboniad. Roedd gan y Cymry yn Bootle Glwb Bowlio llwyddiannus ryfeddol o'r enw y Cambria a pherthynai David Richards iddo. Gallai gerdded yn hawdd o'i gartref yn 112 Beatrice Street i'r parc i fowlio. Bu farw yn ei gartref ar 15 Mehefin 1935 gan adael i alaru ei feibion Thomas a Henry Richards, a dwy ferch, Mrs George Jones a Mrs G. Vaughan Williams (O! caf fy ngwylltio gan yr arferiad ynfyd o alw y merched yn ôl enwau eu gwŷr!) a chwaer a brawd. Collodd ei briod rai blynyddoedd cyn hynny. Ei chwaer, Mrs Margaret Evans, oedd yr olaf o'r teulu ar lannau Mersi. Ganwyd hi yn Gwarcwm, Penllwyn ar 1 Chwefror 1856 a bu farw ym maesdref Crosby, Gogledd Lerpwl ar 24 lonawr 1945.

Bu hi fel ei brodyr yn rhan annatod o fywyd Stanley Road, ac ymddiddorodd yn fawr yng ngwaith cenhadol eglwys Stanley Road yn St John's Road a Bankhall wedi hynny. Gwnaeth wasanaeth amhrisiadwy, ac yn y blyddoedd rhwng 1904 a 1915 treuliau hi ei gwyliau haf gydag eraill yn bugeilio a gwarchod deugain o blant, ar gyfartaledd, am bythefnos o wyliau. Plant tlodion y Genhadaeth oeddynt a phlant nad oedd gobaith yn y byd iddynt gael gwyliau mewn unrhyw ffordd arall. Trefnent y gwersyll mewn lle hwylus yng Ngogledd Cymru, a dyma'r tri canolfan y bu hi yn gofalu amdano, Caergwrle, Cefn-y-bedd ger Wrecsam a Llanferres. Hi oedd brenhines y gwersyll a'r plant i gyd yn eu hanwylo, am eu hamynedd a'u meddwlgarwch.

Rhoddodd fel ei brawd David gyfraniad pwysig yn yr Ysgol Sul. Fel yntau bu hi yn athrawes ar y plant. Ond roedd ei nwyd genhadol yn ddihareb. Bu yn ymwelydd cyson â phobl oedd yn perthyn i'r Ystafell GenhadoJ, yn ffrind da i'r chwaer Kate Evans, ac yn ddawnus ryfeddol ym mywyd ysbrydol yr eglwys niferus. Roedd y tri ohonynt yn meddu ar arddeliad amlwg, gwres y diwygiadau yn ei gwaed, ac awydd i wasanaethu yr Eglwys yn nwyd iddynt. Yr oedd ei phriod Benjamin Evans yn gefnogol i'w gwaith, a bu ef farw yn 1928, o flaen ei brodyr David a Richard Richards. Ganwyd iddi mab a merch. Trigai ei mab Thomas Evans ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd yn 9 Gordon Avenue, Waterloo a'i merch Mrs William Jones yn Crosby. Galwodd ei chartref gyda'r enw tlws Delfryn. Gwasanaethwyd yn ei harwyl hi gan y Parchedig R. Gele Williams, a feddyliai'n uchel am ei chyfraniad, a hi yr adeg honno oedd aelod hynaf eglwys Stanley Road, Bootle. Bu farw ar drothwy ei 89 mlwydd oed.

Saif capel Penllwyn ar fin y ffordd fawr rhwng Ponterwyd a Llanbadarn Fawr. Byddaf yn teithio'n gyson heibio'r Capel a sylwi ar gerflun y Dr Lewis Edwards, y Bala, un o blant y fro, o flaen y Capel. Daw i'm cof am eraill a fagwyd yn y fro fel y Dr Owen Prys a fu'n brifathro y Coleg Diwinyddol, Aberystwyth. Diddorol yw nodi fod y ddau hyn wedi cyfrannu'n helaeth i addysg ddiwinyddol am bron gan mlynedd o amser. Ond erbyn hyn pan af heibio Capel Penllwyn ym mhentref Capel Bangor byddaf yn cofio tri arall, plant Gwarycwm, Margaret, David a Richard Richards a ddiwylliodd fywyd cannoedd o'u cyd-Gymry yn nhref Boole ar Ian yr afon Mersi. Yn wreiddiol yr oeddynt yn saith o blant, ond ar ddydd yr arwyl, ar 29 lonawr 1945 nid oedd ond un brawd ar ôl o deulu Gwarcwm. Roedd hi'n ddiwrnod gaeafol ond fe lwyddodd Thomas Richards, a drigai yn Llanelli, fod yn bresennol yn arwyl ei chwaer, Margaret. Gellir dweud i'r tri ohonynt wireddu'r Gair.

'Yr hyn a ymafla dy law ynddo, gwna a'th holl galon'.

## *Y GOLOFN FARDDOL*

# *DOE*

***Ciliodd haen yr oriau gwiw,***
***Mor fuan y daeth heddiw!***

***Eto, loetran yn y cof***
***Mae'r pethau nad â'n angof.***

***Bu y wawr a chyffro'r haul***
***Yn lledu'r bore araul;***
***A hanner dydd a chyfnos llwyd***
***A diwedd dydd a breuddwyd.***

***Darfu doe, ac nid yw mwy***
***Ond hanes hen ar dramwy.***

**E. Llwyd Williams**

# Crwydro Cymru

# Caernarfon a'r Afon Seiont



Canolfan Sir Gaernarfon yw tref Caernarfon, ond mae gan y dref hanes sydd yn llawer hynach na'r Sir. Wedi'r cyfan, daeth y Rhufeiniaid i'r dref ac mae ei henw yn dweud y cyfan. Caernarfon yw'r Gaer yn Arfon, hynny ydyw, y rhanbarth sy'n wynebu ar Ynys Môn y tu draw i'r Fenai.

Nid oes tref sy'n hafal iddi yn ei chysylltiadau hanesyddol. Ar y bryn y tu ôl i'r dref fe saif adfeilion caer Rufeinig Segontium, oedd ar ben pellaf y ffordd o Deva, sef dinas Caer heddiw.

Daeth Caernarfon hefyd yn gartref i dywysogion Gwynedd. Pan orchfygodd Edward y Cyntaf Ogledd Cymru fe sefydlodd yntau gastell ar y graig sy'n hongian dros yr aber ac yn gwarchod afon Seiont, er mae'n sicr mai Saint oedd yr enw ar yr afon yr adeg honno.

Gwnaeth y Brenin Edward Gaernarfon yn ganolfan, yn wir yn brifddinas Gogledd-Orllewin Cymru. Heddiw mae'r dref yn ganolfan o hyd. Yno y mae pencadlys gweinyddiaeth llywodraeth leol ac mae'r dref a'r cylch yn ddiweddar wedi datblygu'n ganolfan teledu, gyda nifer o gwmnïau annibynnol yn creu rhaglenni amrywiol ar gyfer S4C. Dyma berl o dref hynafol lle mae y mwyafrof o'i thrigolion yn siarad y Gymraeg.



***Adfeilion caer Rufeinig Segontium***

